






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Dangosyddion
sbarduno cyfyngiadau/
Dangosyddion
rhagrybudd

10 Gorffennaf 2020



Dangosyddion sbarduno cyfyngiadau/dangosyddion rhagrybudd

Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio, yn ofalus a fesul tipyn yng Nghymru, mae Grŵp Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhestr o ddangosyddion a gynlluniwyd i roi rhybudd cynnar o gyfraddau heintio sy’n codi a allai olygu bod angen ystyried gwrth-droi mesurau’r cyfyngiadau.

Wrth i lefelau trosglwyddo ostwng, mae’r rhif R yn dod yn llai defnyddiol fel y prif ganllaw ar gyfer gwneud penderfyniadau. Bydd y dangosyddion hyn yn darparu dull mwy soffistigedig o asesu risgiau COVID-19, ac yn ategu’r rhif R gan roi darlun ehangach a manylach o nifer yr achosion o’r feirws ar sail barhaus.

Mae’r prif ddangosyddion, sy’n cael eu galw’n “**ddangosyddion sbardun**”, yn cwmpasu’r meysydd allweddol canlynol: trosglwyddiadau, mynychder a nifer yr achosion o’r feirws a chapasiti’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae set bellach o ddangosyddion “**rhagrybudd**” yn ymdrin ag amrywiaeth ehangach o fesurau ar gyfer monitro, gan gynnwys gwerth R, nifer y bobl sydd yn yr ysbyty gyda’r feirws, data marwolaethau, pwysau ar y cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol (PPE) a dadansoddiadau o linachau’r feirws yng Nghymru.

Mae’r rhestr o ddangosyddion rhagrybudd a dangosyddion sbardun wedi cael ei datblygu gyda rhanddeiliaid a bydd yn cael ei hadolygu’n rheolaidd.

Penderfyniadau i’r Prif Weinidog ydy ystyried a ddylid gwrth-droi’r camau i lacio’r cyfyngiadau, a sut y dylid gwneud hynny, a bydd yn gwerthuso’r dystiolaeth a gyflwynir fel rhan o’r broses.

Cwmpas y dangosyddion sbardun

Pum dangosydd sy’n cwmpasu’r data hyn:

Trosglwyddiad/Mynychder

- Rhagfynegiad dyfodol agos consensws SPI-M-O o’r Rt (y rhif atgynhyrchu neu “rhif R”)
- Yr amser y mae’n ei gymryd i nifer y derbyniadau i’r ysbyty ddyblu / haneru (ac eithrio yn sgil trosglwyddiad nosocomiaidd)
- Gwelyau ysbyty llawn sy’n gysylltiedig â COVID-19
- Gwelyau uned gofal dwys llawn sy’n gysylltiedig â COVID-19
- Gwelyau uned gofal dwys llawn yn gyffredinol

Capasiti’r GIG

- Nifer y cleifion a dderbyniwyd i’r ysbyty sydd wedi cael prawf positif am COVID-19
- Gwelyau ysbyty llawn a ddefnyddir gan gleifion sydd wedi cael prawf positif am COVID-19

- Nifer y cleifion a dderbyniwyd i uned gofal dwys sydd wedi cael prawf positif am COVID-19
- Gwelyau uned gofal dwys llawn a ddefnyddir gan gleifion sydd wedi cael prawf positif am COVID-19

Dangosyddion rhagrybudd

Mae’r rhain yn destun ymgynghoriad ac yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gyda chydweithwyr ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru.

Trosglwyddiad/Mynychder

- Amcangyfrifon SAGE ar gyfer Rt (y rhif atgynhyrchu neu “rhif R”) o grwpiau academaidd unigol
- Nifer yr achosion o COVID-19 a gadarnhawyd
- Data ZOE ar nifer yr achosion (% o’r boblogaeth sydd â COVID-19)
- Nifer y galwadau i Galw Iechyd Cymru / 111 yn ymwneud â COVID-19
- Gweithgarwch ar-lein ar wefan y GIG yn ymwneud â COVID-19
- Ymgynghoriadau Gofal Sylfaenol y GIG yn ymwneud â COVID-19 (dros y ffôn ac wyneb yn wyneb)
- Ymweliadau nyrsio cymunedol y GIG yn ymwneud â COVID-19

Capasiti’r GIG

- Gwelyau ysbyty llawn a ddefnyddir gan gleifion yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu sydd wedi cael prawf positif
- Nifer y cleifion a dderbyniwyd i uned gofal dwys sydd wedi cael prawf positif am COVID-19
- Gwelyau uned gofal dwys llawn a ddefnyddir gan gleifion sydd wedi cael prawf positif am COVID-19
- Nifer y cleifion COVID-19 sydd ar beiriannau anadlu mecanyddol
- Nifer y cleifion COVID-19 sydd ar beiriant CPAP

Genomeg

- Nifer llinachau gweithredol COVID-19 y DU yng Nghymru.
- Cyfradd twf/nifer yr achosion newydd mewn llinachau COVID-19 y DU sy’n bodoli eisoes a ganfuwyd yng Nghymru yn y 1-3 wythnos ddiwethaf.
- Nifer llinachau y DU newydd a welwyd yng Nghymru yn y 1-3 wythnos ddiwethaf.
- Dosbarthiad daearyddol achosion newydd yn llinachau’r DU yng Nghymru (ar draws byrddau iechyd) mewn data o’r 1-3 wythnos flaenorol.

Marwolaethau

- Cyfanswm nifer y marwolaethau COVID-19

Cyfarpar Diogelu Personol

- Lefel y cyflenwadau PPE: cyfanswm
- Cyflenwadau PPE: Menyg untro
- Cyflenwadau PPE: Ffedogau plastig untro
- Cyflenwadau PPE: Gŵn/Gorchuddwisg gwrth-hylif untro
- Cyflenwadau PPE: Masgiau llawfeddygol
- Cyflenwadau PPE: Masgiau llawfeddygol gwrth-hylif (Math IIR)
- Cyflenwadau PPE: Anadlyddion FFP (FFP3)

Mae dangosyddion pellach yn cael eu datblygu ar hyn o bryd mewn cydweithrediad â phartneriaid ledled Cymru.